South Wales
Fire and Rescue Service

Gwasanaeth Tân ac Achub
De Cymru

Gweithdy Diogelwch Tân Busnes Am Ddim

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn cynnal Gweithdai Diogelwch Tân am 11.00am ar y dyddiadau canlynol; 04/04/2012, 06/06/2012, 08/08/2012 ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân, Llantrisant.

Mae'r gweithdai wedi'u cyfyngu i 20 person, a'r 20 cyntaf i gofrestru bydd yn cael lle. Mae'r gweithdai'n para tua dwy awr. I archebu eich lle ar y gweithdy, cysylltwch â'r Adran Diogelwch Tân Deddfwriaethol ar 01443 232732 / 01443 232520 neu e-bost: firesafety@southwales-fire.gov.uk.

Cefndir

Yn 2006, daeth y Gorchymyn Diogelwch Tân i rym, gan ddod yn lle Deddf Rhagofalon Tân 1971 a'r Rheoliadau Rhagofalon Tân (yn y gwaith). Ers ei gyflwyno, mae llawer o gyflogwyr ar draws y wlad ddim yn deall eu cyfrifoldebau'n llawn o hyd. Byddwn yn esbonio'r rhain yn llawn, yn trafod ein gweithdrefnau gorfodaeth, apeliadau ac unrhyw gosbau a/neu ddirwyon y mae gan y Llysoedd y pwer i'w gosod.

Pwrpas

Pwrpas y cyflwyniad yw rhoi gwybodaeth i gyflogwyr, rheolwyr a pherchnogion busnes yn ardal Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru ar;

- eu cyfrifoldebau a'u dyletswyddau o dan y Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân),
- Asesiadau Risg Tân, a
- disgwyliadau Archwiliad Diogelwch Tân.

SWFireandRescue

CODI YMWYBYDDIAETH - LLEIHAU PERYGL

decymru-tan.gov.uk